Beth yw drysfeydd?

Trosolwg

Mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol o ddrysfeydd trwy wylio delweddau ac o bosibl chwilio ar y rhyngrwyd am ddelweddau. Maen nhw'n dylunio eu drysfa eu hunain i wneud map drysfa ac yn ymweld â'r Comin i brofi'r mapiau yno.

Yna, mae dysgwyr yn ceisio adeiladu eu drysfa yn yr awyr agored gan ddefnyddio ffyn, canghennau a dail. Gan mai profi a methu yw hyn, mae'r defnydd o brototeipiau yn gynhenid. (Sylwch os gwelwch yn dda bod adeiladu'r drysfeydd o'u mapiau hefyd yn gofyn am newidiadau i'r mapiau a llawer o amser meddwl. Mae dysgwyr yn defnyddio iaith leoliadol i ddisgrifio i athro yn gwisgo mwgwd sut i lywio eu drysfa ac yn ehangu hyn i blant eraill a/neu robotiaid llawr rhaglenadwy.

Cyfleoedd i ddatblygu...



COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer y gweithgaredd

- Mynediad i'r rhyngrwyd (dewisol)
- Ffyn, canghennau, dail, ac ati.
- Robot rhaglenadwy, e.e. Bee-Bots, Botley ac ati (dewisol).

Adnoddau wedi eu cynnwys gyda'r gweithgaredd hwn

1. Delweddau o ddrysfeydd
2. Cwestiynau ffocws a awgrymir mewn setiau, sy'n ymwneud â phob tasg, y gellir eu rhoi i bob pâr/grŵp wrth iddynt ddechrau pob tasg. I'r gwrthwyneb, gall yr athro ddefnyddio'r cwestiynau hyn.

Sut i gynnal y gweithgaredd

Tasg 1: Beth yw drysfa?

Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr feddwl am yr hyn maen nhw'n ei wybod am ddrysfeydd a thrafod hyn. Fe allech chi ddangos delweddau o ddrysfeydd iddyn nhw fel y rhai yn **Adnodd 1** a/neu eraill o'r rhyngrwyd os oes angen. Er enghraifft, drysfa ardd wedi'i gwneud o wrychoedd neu ddrysfa 2D y gallent fod wedi'i gweld mewn llyfr posau. Anogwch nhw i rannu eu syniadau a'u profiadau o ddrysfeydd gyda'r dosbarth.

Cwestiynau a awgrymir

- Beth yw ystyr y gair 'drysfa'? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pryd ydych chi wedi gweld drysfa? Ble welsoch chi'r ddrysfa? Beth oeddech chi'n ei feddwl? Pam?
- Pryd ydych chi wedi bod i ddrysfa? Ble oedd y ddrysfa?
- Sut olwg oedd arni?
- O beth y cafodd ei gwneud? Pam?
- Sut ydych chi'n defnyddio drysfa?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 2: Sut allwn ni gynllunio drysfa?

Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr gynllunio drysfa syml ar bapur - dyma fydd eu map drysfa. Anogwch y dysgwyr i gadw'r ddrysfa yn gymharol syml, gan eu bod yn mynd i greu y ddrysfa y maen nhw'n ei darlunio.

Cwestiynau a awgrymir

- Sut allwch chi ddangos eich drysfa fel map? Pam ei gwneud felly?
- Sut olwg fydd ar eich drysfa? Pam?
- A fydd ymylon syth neu grwm i'ch drysfa? Pam?
- Disgrifiwch eich drysfa i grŵp arall. Pa mor hawdd oedd disgrifio'ch map drysfa i grŵp arall? Beth oedd yn anodd ei ddisgrifio? Pam?

Tasg 3: Sut allwn ni wneud drysfa?

Cynlluniwch a threfnwch ymweliad i fynd â dysgwyr i Gomin Gelligaer a Merthyr. Yn ystod yr ymweliad hwn, gellid dangos mapiau llwybr y Barcud Coch neu'r llwybr Treftadaeth i ddysgwyr ac ystyried sut mae'r rhain yn cael eu defnyddio i weithio allan sut i ddilyn gwahanol lwybrau o amgylch y Comin. Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r mapiau i geisio llywio ar un neu fwy o'r llwybrau.

Yn ôl yn yr ysgol, gofynnwch i'r dysgwyr gasglu llawer o ffyn, canghennau a dail i wneud eu drysfa. Gwahoddwch grwpiau bach o ddysgwyr i wneud eu drysfa gan ddefnyddio'r map drysfa a'r deunyddiau maen nhw wedi'u casglu. Mae'r dasg hon yn defnyddio profi a methu ac felly, mae'n dda os yw dysgwyr yn gwneud camgymeriadau ac yn eu cywiro, e.e. gwneud y tu allan i'r sgwâr yn rhy fach, ac ati.

Cwestiynau a awgrymir

- Beth oedd yn hawdd am wneud eich drysfa o'r map drysfa? Pam roedd hyn yn hawdd?
- Beth oedd yn anodd am wneud eich drysfa o'r map drysfa? Pam roedd hyn yn anodd?
- Sut allech chi wella'ch drysfa? Pam fyddai hyn yn gwella'ch drysfa?

Er mwyn canolbwyntio ar safle a'r iaith sy'n ymwneud a safle, gwisgwch fwgwd a gofynnwch i'r plant eich llywio trwy eu drysfeydd gan ddefnyddio'u lleisiau, heb i chi gyffwrdd ag ymyl.

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 4: Sut allwn ni fynd o amgylch ein drysfa?

Mae'r dasg hon hefyd yn canolbwyntio ar safle a'i iaith. Ar ddechrau Tasg 3, fe wnaethoch chi wisgo mwgwd a gofyn i grŵp o ddysgwyr roi cyfarwyddiadau llafar i chi i'ch llywio trwy eu drysfa heb i chi gyffwrdd ag ymyl.

Os oes gennych fynediad i robot llawr rhaglenadwy, gallai dysgwyr ddefnyddio'r rhain a darparu cyfarwyddiadau i'w llywio trwy eu drysfa. Fel arall, gallai dysgwyr o wahanol grwpiau gymryd eu tro i wisgo mwgwd a rhoi cyfarwyddiadau iddynt lywio eu hunain trwy ddrysfeydd ei gilydd.

Cwestiynau a awgrymir

- Pa gyfarwyddiadau sydd angen i chi eu rhoi i helpu rhywun trwy'ch drysfa? Pam?
- Pa mor hawdd oedd hyn? Pam?
- Beth oedd y rhan anoddaf? Pam?
- Sut allwch chi symud y robot ymlaen/yn ôl/i'r chwith/i'r dde/clocwedd/ gwrthglocwedd?
- Beth yw'r problemau gyda defnyddio'r robot llawr? Sut allech chi oresgyn y rhain?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Adnodd 1: Ffotograffau o ddrysfeydd

Adnodd 2: Cwestiynau ffocws a awgrymir

Tasg 1: Beth yw drysfa?

- Beth yw ystyr y gair 'drysfa'? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pryd ydych chi wedi gweld drysfa? Ble welsoch chi'r ddrysfa? Beth oeddech chi'n ei feddwl? Pam?
- Pryd ydych chi wedi bod i ddrysfa? Ble oedd y ddrysfa?
- Sut olwg oedd arni?
- O beth y cafodd ei gwneud? Pam?
- Sut wnaethoch chi ddefnyddio drysfa?

Tasg 2: Sut allwn ni gynllunio drysfa?

- Sut allwch chi ddangos eich drysfa fel map? Pam ei gwneud felly?
- Sut olwg fydd ar eich drysfa? Pam?
- A fydd ymylon syth neu grwm i'ch drysfa? Pam?
- Disgrifiwch eich drysfa i grŵp arall. Pa mor hawdd oedd disgrifio'ch map drysfa i grŵp arall? Beth oedd yn anodd ei ddisgrifio? Pam?

Tasg 3: Sut allwn ni wneud drysfa?

- Beth oedd yn hawdd am wneud eich drysfa o'r map drysfa? Pam roedd hyn yn hawdd?
- Beth oedd yn anodd am wneud eich drysfa o'r map drysfa? Pam roedd hyn yn anodd?
- Sut allech chi wella'ch drysfa? Pam fyddai hyn yn gwella'ch drysfa?

Tasg 4: Sut allwn ni fynd o amgylch ein drysfa?

- Pa gyfarwyddiadau sydd angen i chi eu rhoi i helpu rhywun trwy'ch drysfa? Pam?
- Pa mor hawdd oedd hyn? Pam?
- Beth oedd y rhan anoddaf? Pam?
- Sut allwch chi symud y robot ymlaen/yn ôl/i'r chwith/i'r dde/clocwedd/gwrthglocwedd?
- Beth yw'r problemau gyda defnyddio'r robot llawr? Sut allech chi oresgyn y rhain?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig. European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government